

**Cyngor Sir Caerfyrddin**

## **Strategaeth Toiledau Lleol**

Yn unol â

Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 - Rhan 8

**DRAFFT – Mawrth 2019**

Paratowyd mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Toiledau Brydeinig



# STRATEGAETH TOILEDAU CYHOEDDUS SIR GAERFYRDDIN

## Cynnwys

<b>Cyflwyniad .....</b>	<b>3</b>
<b>Strategaeth Toiledu Lleol – Canllawiau Statudol .....</b>	<b>4</b>
<b>Nodau’r Strategaeth .....</b>	<b>5</b>
<b>Y Ddarpariaeth Bresennol .....</b>	<b>8</b>
<b>Ymgynghoriad Toiledu Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin –</b>	
<b>Dadansoddiad a chanlyniadau .....</b>	<b>11</b>
<b>Amlinellau ac Ystyriaethau Strategol .....</b>	<b>22</b>
<b>Crynodeb o’r Argymhellion a Chynllun Gweithredu .....</b>	<b>31</b>
<b>ATODIAD A – Data Toiledu Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin .....</b>	<b>35</b>
<b>Safonau a Darpariaethau – cyfeiriadau cyfreithiol .....</b>	<b>42</b>
<b>Diolchiadau ac Amrywiol .....</b>	<b>44</b>

## Cyflwyniad

Mae gan Sir Gaerfyrddin amgylchedd cyfoethog ac amrywiol, ynghyd â gweledigaeth gyffredin o flaenoriaethau corfforaethol o ran cynllunio strategol a chyflawni ei gyfrifoldebau statudol ar hyn o bryd ac i'r dyfodol. Mae'r Cyngor, er hynny'n wynebu cyfnod o doriadau arwyddocaol a pharhaus yn ei gyllideb ac mae felly'n bwysicach nag erioed ein bod yn sicrhau y gwnawn y defnydd gorau o adnoddau. Rydym yn parhau i wynebu nifer o heriau, y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu creu gan ffactorau y tu hwnt i reolaeth y Cyngor, a thros y blynyddoedd diwethaf mae lefel yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus wedi lleihau'n sylweddol, ac ar yr un pryd mae'r pwysau o ran galw a disgwyliadau wedi bod yn cynyddu. Mae hyn yn golygu felly fod rhaid inni newid y ffordd y darparwn rai gwasanaethau wrth inni geisio defnyddio ffyrdd mwy creadigol o ddarparu rhai gwasanaethau megis cyfleusterau toiledau cyhoeddus.

Gan fod poblogaeth bresennol y sir o gwmpas 185,000 a chan fod y sir yn denu tua 3 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn, gwelwyd buddsoddiad amlwg yn seilwaith a threftadaeth y sir. Mae'r strategaeth hon yn amlygu'r rôl y bydd toiledau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat o fewn ardal y Cyngor yn ei chwarae, a sut fydd eu lleoliad yn gwella a chyfoethogi profiad ymwelwyr. Mae'r argymhellion o'r strategaeth hon yn cefnogi'r weledigaeth o greu Sir Gaerfyrddin iachus sy'n rhoi gwerth ar amrywiaeth, cydraddoldeb a chydlynid cymdeithasol, yn ogystal â chynnig cymorth i bobl, busnesau a chymunedau yn y sir. Mae cyfleusterau toiledau yn cael cryn effaith ar gynhwysiant cymdeithasol a chydaddoldeb sylfaenol, yn ogystal ag ar faterion iechyd y cyhoedd a hylendid. Gallai rhai aelodau'r gymuned fynd yn gaeth i'w cartrefi neu osgoi teithio'n gyfan gwbl yn hytrach na mentro bod angen a methu dod o hyd i doiled addas "oddi cartref" sy'n diwallu eu hanghenion nhw neu aelodau eu teuluoedd.

### **Nid oes unrhyw reidrwydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu toiledau cyhoeddus, ond mae'r strategaeth hon yn ceisio lleddfu effeithiau posib os yw toiledau'n cael eu colli.**

Mae darpariaeth ddigonol o doiledau diogel, glân, hylan sydd ar gael i'r cyhoedd mewn unrhyw dref o faint yn cael effaith arwyddocaol ar fywyd a llesiant ei thrigolion, ymwelwyr a'r diwydiant twristaidd. Fodd bynnag, mae'n debyg fod un o'r ffactorau seilwaith allweddol yn un cwbl fasnachol. Mae darparu toiledau yn cael effaith fawr ar weithgarwch busnes masnachol ac yn enwedig felly ar brofiad y siopwr. Os nad oes digon o doiledau bydd y siopwr yn mynd yn anghyfforddus ac yn gadael yr ardal, gan fynd â'u cyllideb wario gyda nhw. Yn waeth byth, os ydynt yn gwybod am y broblem efallai y byddant yn dewis peidio mynd i'r dref o gwbl a bydd busnesau lleol yn colli refeniw. Gall diffyg toiledau cyhoeddus effeithio ar enw da, glendid a llesiant yr ardal ar draws y sbectrwm masnachol yn ei gyfanrwydd. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i deithwyr masnachol, gyrwyr cyflenwi nwyddau, gwasanaethau brys a gweithwyr mudol sy'n dibynnu ar gael cyfleusterau toiledau glân wrth iddynt basio drwy neu ymweld â siopau lleol bob dydd.

O fewn y strategaeth gellid ymchwilio a/neu ddatblygu nifer o gyfleoedd gyda phartneriaid busnes i wrthweithio colli toiledau cyhoeddus yn ystod y cyfnod economaidd anodd hwn. Gallai'r cyfleoedd posib gynnwys cynyddu nifer y toiledau sy'n agored ac ar gael i bawb, heb fawr ddim cost i'r Cyngor yn uniongyrchol.

## **Pam mae angen Strategaeth Toiledau arnom? – Canllawiau Statudol**

Derbyniodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ('y Ddeddf') Gydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017. Mae'r Ddeddf yn crynhoi at ei gilydd nifer o gamau ymarferol ar gyfer gwella a diogelu iechyd. Mae Rhan 8 y Ddeddf yn cyflwyno darparu toiledau ac yn benodol felly strategaethau toiledau lleol.

Nod Rhan 8 yw sicrhau bod pob awdurdod lleol (ALI) yng Nghymru yn asesu anghenion ei gymuned o ran toiledau, ac yna'n cymryd ffordd strategol a thryloyw o geisio diwallu'r angen hwnnw yn y ffordd orau. Bydd y broses hon yn golygu y gellir edrych yn ddyfnach ar y dewisiadau sydd ar gael ar gyfer darparu toiledau i'w defnyddio gan y cyhoedd, yn amrywio o doiledau cyhoeddus ar wahân traddodiadol i doiledau mewn perchnogaeth breifat. Bwriad hyn yw helpu mynd i'r afael â'r heriau presennol wrth geisio darparu cyfleusterau toiledau cyhoeddus mewn cymunedau, sydd yn aml wedi dibynnu ar gyfleusterau ar wahân traddodiadol a fu ar drai yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd pwysau ariannol ar awdurdodau lleol.

Bwriad Rhan 8 yw nid atal awdurdodau lleol rhag gwneud penderfyniadau y mae angen iddynt eu cymryd wrth gyflawni eu gwaith, all gynnwys penderfyniadau i gau toiledau cyhoeddus traddodiadol neu adeilad pan mae'n briodol gwneud hynny. Yn hytrach, y bwriad yw sicrhau gwell trefn o gynllunio darpariaeth fel bod unrhyw benderfyniadau'n cael eu cymryd yng nghyd-destun cyffredinol diwallu anghenion penodedig eu cymunedau. Bydd ffordd strategol o weithio hefyd yn helpu lliniaru unrhyw effeithiau negyddol yn deillio o newid y ddarpariaeth.

**Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i baratoi a chyhoeddi Strategaeth Toiledau Lleol ar gyfer ei ardal. Nid yw'r ddyletswydd i baratoi strategaeth ynddi'i hun yn golygu fod rhaid i awdurdodau lleol ddarparu a chynnal toiledau cyhoeddus eu hunain, ond mae'n rhaid iddynt gymryd golwg strategol ar draws eu hardal o sut ellir darparu'r cyfleusterau hyn a'u gwneud ar gael i'w poblogaeth leol. Wrth wneud hynny rhagwelir y bydd awdurdodau lleol yn ystyried ystod lawn o ddewisiadau ar gyfer gwneud cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd.**

Er mwyn rhoi'r hyblygrwydd i awdurdodau lleol ymateb wrth i amgylchiadau newid, gall awdurdodau lleol adolygu'r strategaethau ar unrhyw adeg yn ychwanegol at y cyfnod adolygu gorfodol. Wedi adolygu'r strategaeth hon, mae'n rhaid i Gyngor Sir Caerfyrddin gyhoeddi datganiad cynnydd. Amlygir pwysigrwydd ymgysylltu cyson gyda chymunedau yn y darpariaethau hyn, trwy'r angen i gyhoeddi unrhyw strategaeth ddiwygiedig.

## Nodau'r Strategaeth

Datblygwyd a chyflawnwyd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ar sail mandad y Gweinidogion i wneud Cymru yn wlad fwy deniadol i fyw a gweithio ynddi ac i ymweld â hi. Mae'n rhestru nodau ar gyfer iechyd a llesiant ein poblogaeth a chenedlaethau'r dyfodol, ac wrth wneud hynny galwodd am adolygiad llwyr o doiledau sydd ar gael i'r cyhoedd ar draws Cymru. Cafodd pob awdurdod lleol y cyfrifoldeb o lunio strategaeth toiledau ar gyfer darparu toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd o fewn eu ffiniau sirol. Hefyd, mae'n rhaid iddynt ddatblygu hyn yn rhaglen waith y gellir ei hadolygu bob hyn a hyn er mwyn monitro gwelliannau a chyfleoedd.

Mae'r prif nodau bras ar gyfer Adran 8 y Ddeddf fel a ganlyn:

1. Llunio/datblygu strategaeth toiledau cyhoeddus ar gyfer pob rhanbarth yng Nghymru
2. Adnabod cyfleoedd ar gyfer parhau i ddarparu toiledau
3. Adnabod partneriaethau posib gyda busnesau a chymunedau lleol
4. Cynyddu ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth bresennol
5. Ymchwilio/annog pobl i gymryd rhan mewn cynllun toiledau cymunedol
6. Adnabod cyfleoedd ar gyfer darparu toiledau Lleoedd Newid
7. Hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r cyfleoedd ymhlith ymwelwyr
8. Trwy ei chreu – gwneud Cymru'n lle iachach i Fyw a Gweithio ynddo ac i Ymweld ag ef
9. Ysgafnhau'r baich ar y Gwasanaeth Iechyd o ran problemau yn gysylltiedig ag effeithiau posib darpariaeth negyddol neu dorri gwasanaethau

O'r nodau hyn bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn datblygu'r agenda canlynol:

- (a) Sefydlu Grŵp Astudio Strategaeth Toiledau (TSSG) o fewn ei strwythurau adrannol ac er mwyn galluogi rheolwyr a staff uwch i rannu gwybodaeth, profiadau ac arferion gwaith presennol wrth ddatblygu'r strategaeth hon.
- (b) Datblygu ffordd hollataidd o ddatblygu strategaeth ar gyfer darparu toiledau ar hyn o bryd ac i'r dyfodol mewn canol trefi a'r sir yn gyffredinol, gan gasglu gwybodaeth

trwy ymgynghoriadau a defnyddio'r grŵp rhyngadrannol hwn i ddarparu gwasanaeth effeithlon a fforddiadwy.

- (c) Ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol o blith perchnogion/gweithredwyr, adeiladau cyhoeddus, busnesau a chyrrff cynrychioliadol eraill yn gweithio a byw yn yr ardal, ac ymchwilio ac ystyried partneriaethau posib gyda chyrrff cyfrannog.
- (d) Trafod a phenderfynu buddsoddiadau, strategaethau ac arferion gwaith i'r dyfodol o fewn y Cyngor, cynghorau tref a chymuned a'r sir yn gyffredinol er mwyn cydymffurfio â holl amcanion tybiedig PHWA 2017 – helpu datblygu Sir Gaerfyrddin yn sir gynhwysol a bywiog.
- (e) Adnabod cyfleoedd i'r Cyngor weithio'n gadarnhaol gyda'i gymunedau lleol, grwpiau cymdeithasol a gwasanaethu anghenion trigolion ac ymwelwyr yn fwy effeithiol.
- (f) Lle'n briodol, bydd materion ynghylch ymgorffori a darparu cyfleusterau toiledau o fewn datblygiadau yn cael eu hystyried yn unol â pholisi cynllunio a chanllawiau cynllunio cenedlaethol.

Cred yr Awdurdod y gallai fod yn ddoeth pennu rhai nodau tymor byr, canol a hir ar gyfer yr amodau a nodir uchod. Unwaith y cafodd yr amodau eu cytuno a'u cymeradwyo gan y Grŵp Astudio Strategaeth Toiledau, dylai fod gan yr aelodau ddiffiniad llawer cliriach o gwmpas cyffredinol y prosiect. O'r herwydd, byddwn felly'n barod i symud ymlaen i greu gweddill deilliannau'r prosiect.

## **FFYRDD O WEITHIO'N WAHANOL**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi ar waith 'egwyddor datblygu cynaliadwy' sy'n dweud wrth gyrff cyhoeddus sut i fynd ati i gyflawni eu dyletswydd o dan y Ddeddf honno. Mae'r egwyddor yn cynnwys pum ffordd o weithio y dylai gyrff cyhoeddus eu dilyn wrth gyflawni datblygu cynaliadwy. Y bum ffordd yw:

- ystyried yr hirdymor fel nad ydym yn effeithio'n andwyol ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- gweithio mewn ffordd integredig;
- gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol i ddod o hyd i atebion cynaliadwy cyffredin;
- cynnwys y boblogaeth yn ei holl amrywiaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt; a
- gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu rhag gwaethygu.

Prif nodau ataliol y Strategaeth Toiledau Lleol hon yw:

- adnabod cyfleusterau toiledau allweddol mewn lleoliad;
- adnabod cyfleusterau sydd mewn perygl o gael eu colli i leoliad, a ffyrdd o allu eu cadw ar agor;
- adnabod darpariaeth amgen os oes rhaid i gyfleusterau gau;
- adnabod cyfleusterau eraill y gellir gwneud mwy o ddefnydd ohonynt i ychwanegu at gyfleusterau sydd ar gael yn barod neu i gymryd lle rhai a gollwyd; ac
- adnabod cyfleoedd i ddatblygu cyfleusterau newydd yn ôl manylebau modern, cynhwysol mewn datblygiadau i'r dyfodol.

Deallwn fod angen inni ddatblygu'r nodau hyn yn unol ag ethos y "Pum Ffordd o Weithio" a nodir yng Nghynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin 2018-2023.

## Adolygu'r Strategaeth

Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn paratoi adroddiad cynnydd interim yn nodi'r camau a gymerwyd yn unol â'u strategaeth bob dwy flynedd gan gychwyn ar ddyddiad y strategaeth olaf a gyhoeddwyd. Cyhoeddir yr adroddiad cynnydd interim o fewn chwe mis i ddyddiad olaf y cyfnod o ddwy flynedd. Felly, wedi cyhoeddi'r adroddiad ym mis Mai 2019, cynhelir yr adolygiad cyn diwedd Mai 2021 ac fe'i cyhoeddir cyn diwedd mis Tachwedd 2021.

Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin hefyd yn adolygu'r strategaeth toiledau lleol o fewn blwyddyn i bob etholiad arferol ar gyfer ei ardal. Dyddiad yr etholiadau nesaf yng Nghymru yw dydd Iau 5 Mai 2022, sy'n golygu mai'r dyddiad terfynol ar gyfer adolygiad yw 4 Mai 2023. Os na wneir unrhyw newidiadau i'r strategaeth yn dilyn yr adolygiad wedi'r etholiad, bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn cyhoeddi datganiad cynnydd interim ar gyfer cyfnod o ddwy flynedd yn cychwyn ar ddyddiad yr etholiad diwethaf.

Gall Cyngor Sir Caerfyrddin adolygu ei strategaeth ar unrhyw adeg, ac wedi gwneud hynny rhaid iddo gyhoeddi datganiad o'r camau a gymerodd yn unol â'r strategaeth. Yn dilyn adolygiad, os yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn penderfynu diwygio'r strategaeth, bydd yn cyhoeddi'r strategaeth ddiwygiedig ac yna'n paratoi adroddiad cynnydd interim ar gyfer y cyfnod o ddwy flynedd yn cychwyn ar y dyddiad cyhoeddi.



## Y Ddarpariaeth Ar Hyn o Bryd

### Map o'r toiledau sydd ar gael yn Sir Gaerfyrddin

(Cyfleusterau ar wahân traddodiadol a ddarperir gan y Cyngor Sir a Chynghorau Tref a Chymuned)



Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn goruchwyllo'r gwaith o redeg a gwasanaethu 19 o flociau toiledau cyhoeddus ar wahân traddodiadol ledled y sir. Mae'r cyfrifoldeb gweithredol am y rhain yn amrywio ar draws yr Awdurdod. Amlinellir y cyfrifoldebau ar gyfer pob cyfleuster unigol yn y tabl isod. Mae'r rhestr hefyd yn cynnwys 21 cyfleuster arall sy'n cael eu rhedeg gan gynghorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol eraill.

Dangosir manylion y cyfleusterau unigol ar wahân yn Atodiad A

Ceir gwybodaeth am amserau aros trwy wasgu ar y pinnau unigol trwy ein map electronaidd sydd ar gael ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin:

<https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethau-cyngor/teithio-ffyrdd-a-pharcio/toiledau/#.XH-oTWe7LIU>



<b>Y Lleoliad</b>	<b>Tâl</b>	<b>Cyfrifoldeb</b>
Abergorlech – Canol Y Pentref	Di-dâl	Cyngor Cymuned
Alltwalis - Canol Y Pentref	Di-dâl	CSG Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
Rhydaman - Maes Parcio Carregaman	20c	Danfo / CSG Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
Rhydaman - Parc Rhydaman	Di-dâl	Cyngor Tref
Rhydaman - Maes Parcio'r Co-op	Di-dâl	Cyngor Tref
Brechfa - Canol y Pentref	Di-dâl	Ymddiriedolaeth y Pentref
Porth Tywyn - Yr Orsaf Reilffordd	Di-dâl	CSG Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff / Cyngor Tref
Caerfyrddin - Maes Parcio Heol Ioan	20c	Danfo / CSG Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
Marchnad Caerfyrddin	Di-dâl	CSG Adfywio a Pholisi
Cenarth – Maes Parcio	Di-dâl	CSG Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
Cynwyl Elfed - Canol y Pentref	Di-dâl	Cyngor Cymuned
Glanyfferi - Mynedfa'r Traeth	Di-dâl	CSG Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
Ffaldybrenin – Heol Timothy	Di-dâl	Cyngor Cymuned
Ffarmers – Gerllaw'r Neuadd	Di-dâl	Cyngor Cymuned
Glanaman - Sgwâr Cwmaman	Di-dâl	Cyngor Tref
Gerllaw'r Parc Gorslas	Di-dâl	Cyngor Cymuned
Cydweli - Sgwâr y Dref	Di-dâl	Cyngor Tref
Lacharn - Gerllaw'r Castell	20c	Danfo / CSG Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
Llanboidy - Canol y Pentref	Di-dâl	Cyngor Cymuned
Llanddowror – Heol Dinbych-y- pysgod	Di-dâl	Cyngor Cymuned
Llandeilo - Maes Parcio Canol y Dref	20c	Danfo / CSG Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
Llanymddyfri - Maes Parcio'r Castell	20c	Danfo / CSG Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff

Llandybie Heol Gwilym	Di-dâl	Cyngor Cymuned
Gorsaf Fysiau Eastgate	20c	Danfo / CSG Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
Marchnad Llanelli	Di-dâl	CSG Adfywio a Pholisi
Parc Howard, Llanelli	Di-dâl	CSG Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
Llanelli - Neuadd y Dref - Waunlanyrafon	20c	Danfo / CSG Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
Llansawel – Gerllaw’r Neuadd	Di-dâl	Cyngor Cymuned
Maes Parcio Traeth Llanstaffan	Di-dâl	CSG Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
Sgwar Llanybydder	Di-dâl	Cyngor Cymuned
Maes Parcio Meidrim	Di-dâl	Cyngor Cymuned
Y Meinciau - Y Neuadd Gymunedol	Di-dâl	Cyngor Cymuned
Ger y Mart, Castell Newydd Emlyn	Di-dâl	CSG Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
Neuadd y Farchnad Castell Newydd Emlyn	Di-dâl	Cyngor Tref
Canolfan Parry Thomas, Pentywyn	Di-dâl	CSG Adfywio a Pholisi
Penygroes – Canol Y Pentref	Di-dâl	Cyngor Cymuned
Sanclêr - Maes Parcio Canol y Dref	20c	Danfo / CSG Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
Caerfyrddin - Maes Parcio San Pedr	20c	Danfo / CSG Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
Hendy-gwyn - Stryd y Gorllewin	Di-dâl	Cyngor Tref
A48 Bristol House	Di-dâl	Asiant Cefnfyrrdd de Cymru

## Ymgynghoriad Toiledau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin

Cynhaliwyd ymgynghoriad toiledau cyhoeddus ac asesiad o anghenion yn ystod misoedd Hydref/Tachwedd 2018.

### Pwrpas yr Ymgynghoriad

Nod yr ymgynghoriad oedd hel gwybodaeth gan y cyhoedd ar eu barnau a'u syniadau ar gyfer gwella'r ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin.

### Y Broses Ymgynghori

Cynhyrchwyd holiadur i gasglu barn y cyhoedd ar:

Ddiogelwch a glendid cyfleusterau

Lleoliad cyfleusterau

Ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd

Cyfleusterau newid cewynnau

Mynediad i bobl anabl

Cyfleusterau Lleoedd Newid

Roedd yr holiadur ar gael ar wefan Cyngor Sir Gaerfyrddin yn ystod misoedd Hydref / Tachwedd 2018. Danfonwyd yr holiadur hefyd at grwpiau cynrychioliadol perthnasol ar gyfer pobl all fod yn fwy dibynnol ar ddefnyddio toiledau cyhoeddus. Derbyniodd yr ymgynghoriad 507 o ymatebion. Ceir crynodeb o'r canlyniadau yma:


### Crynodeb o'r Canlyniadau

Mae darparu toiledau cyhoeddus yn fater pwysig i drigolion Sir Gaerfyrddin, a dywedodd 88% o'r sawl a ymatebodd i'r ymgynghoriad eu bod yn poeni a fyddent yn gallu defnyddio toiled cyhoeddus wrth fynd yma ac acw. Dangosodd yr adborth o'r holiadur fod ymatebwyr yn teimlo fod angen mwy o ddarpariaeth mewn rhai ardaloedd, a dywedodd 51% o ymatebwyr fod diffyg toiledau wedi'u rhwystro rhag mynd i le cyhoeddus fel canol tref neu draeth yn y gorffennol.

Y prif ardaloedd lle y gofynnwyd am fwy o ddarpariaeth oedd Castellnewydd Emlyn, Pen-sarn (Caerfyrddin) a Chanol Tref Llanelli. Wrth ystyried darpariaeth i'r dyfodol, rhoddir ystyriaeth i nifer o ffactorau. Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr (59%) y byddent yn hapus i dalu tâl bychan i allu defnyddio toiled cyhoeddus. Dywedodd tua 25% o ymatebwyr hefyd eu bod neu y byddent yn defnyddio toiled neillryw.

O'r 507 o bobl a ymatebodd i'r holiadur, dywedodd 9% eu bod yn defnyddio neu'n helpu rhywun arall i ddefnyddio cyfleusterau Lleoedd Newid. Dangosodd yr holiadur fod galw am fwy o'r cyfleusterau hyn ledled y sir, mewn canol trefi, parciau gwledig, traethau ac atyniadau eraill.

Edrychodd yr ymgynghoriad hefyd ar ffactorau eraill oedd yn atal aelodau'r cyhoedd rhag gallu defnyddio cyfleusterau toiledau cyhoeddus (Ffigur 1).



Ffigur 1 Rhwystrau hygrychedd mewn toiledau cyhoeddus.

Lleoliad oedd y rhwystr mwyaf cyffredin rhag gallu defnyddio toiled cyhoeddus. Roedd glendid hefyd wedi rhwystro rhai ymatebwyr rhag defnyddio cyfleusterau. Roedd yn ymddangos fod canlyniadau'r holiadur yn dangos fod hyn yn effeithio ar fenywod yn fwy na dynion, a dywedodd 27% o fenywod ac 16% o ddynion fod glendid wedi'u rhwystro rhag defnyddio toiled cyhoeddus. Fodd bynnag, er bod lleoliad a glendid yn rhwystrau oedd yn atal rhai pobl rhag gallu defnyddio cyfleusterau toiledau cyhoeddus, dywedodd 84% o ymatebwyr nad oedd yn rhwydd dod o hyd i doiled wrth fynd yma ac acw yn Sir Gaerfyrddin. Dangosodd canlyniadau'r arolwg hefyd fod 79% o ymatebwyr yn barnu fod diogelwch a glendid toiledau cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin yn 'Weddol' i 'Ragorol'.

## CANLYNIADAU A GYHOEDDWDYD – fel y’u derbyniwyd

### (1) A ydych wedi defnyddio unrhyw un o Gyfleusterau Cyhoeddus y Cyngor yn ystod y 12 mis diwethaf?



### (1b) A wnaeth y cyfleusterau hynny ddiwallu eich anghenion?




### (1c) Esboniwch unrhyw broblemau a gafwyd gennych

- Llanelli (Canol y Dref) - dim cyfleusterau newid cewynnau, dim lle ar gyfer cadair olwyn, dim lle newid ar gyfer pobl anabl, brwnt, llawn gwastraff toiled
- Llanelli (Traeth) - Dim papur tŷ bach ac yn ddrewllyd
- Llanelli (Marchnad) - ddim yn addas ar gyfer person ifanc anabl, rhy fach, ffiائد
- Llanelli (Llyfrgell) - ar gau
- Llanelli (Gorsaf Fysiau) - angen talu i'w defnyddio, pam?
- Parc Gwledig Pen-Bre – plentyn anabl, dim byrddau newid addas gan ei fod yn rhy fawr ar gyfer yr uned newid cewynnau babanod.
- Porth Tywyn – annymunol, brwnt, profiad annymunol, brwnt, llawn gwastraff toiled, ddim yn lân iawn, dim biniau, ddim yn lân
- Cydweli - brwnt, ddim yn lân iawn
- Gors-las (Parc) - ar glo
- Rhydaman (Maes Parcio Co-op) - Brwnt iawn, llwydni, oer
- Rhydaman - dim lle ar gyfer cadair olwyn, dim cyfleusterau newid cewynnau, uned gwaredu nodwyddau, dim arian
- Rhydaman (Parc) - brwnt
- Caerfyrddin - ar glo, dim lle newid ar gyfer pobl anabl, cyfleusterau ar gyfer plant ifanc yn wael iawn, ar gau, rhy bell o ganol y dref
- Caerfyrddin (Maes Parcio Sant Ioan) - wedi talu 20c ddwywaith a dim drws wedi agor
- Caerfyrddin (Parc) - ar gau
- Llansteffan - Brwnt, dŵr ddim yn gweithio
- Castellnewydd Emlyn (Cloc) – ciw, cyfleusterau i blant ifanc yn wael iawn, ar gau, lleoliad ddim yn addas gan ei fod ar ochr arall y dref i'r prif faes parcio, dim ond 1 toiled i fenywod ac 1 toiled i ddynion, dim digon o arwyddion, ar gau, brwnt, annymunol, ddylen ni ddim gorfod talu, gormod o bobl yn aros, brwnt, drewllyd, wedi cael eu fandaleiddio, dim cyfleuster golchi dwylo, dim lle newid cewynnau, nid yw'r allwedd radar yn agor pan fydd y cyfleusterau ar gau ar benwythnosau.




- Castellnewydd Emlyn (Mart) - ar glo
- Sanclêr - Dŵr yn gollwng, wrin ar y llawr
- Talacharn – anniben iawn
- Llandeilo – anodd dod o hyd i newid i ddefnyddio'r cyfleusterau
- Abergorlech – ar gau
- Talyllychau - ar gau
- Llansteffan - ddim yn lân

**(2) Yn eich profiad chi, a yw'n hawdd dod o hyd i doiled pan fyddwch yn mynd allan yn Sir Gaerfyrddin?**



**(2) A yw'r diffyg darpariaeth o doiledau cyhoeddus wedi eich atal rhag ymweld ag ardal siopa neu lleoliad arall?**




**(2) Sylwadau:**

Lleoliad a nifer yn bobl a nododd yr un lleoliad, yr uchaf ar y brig.


- Castellnewydd Emlyn 93
- Pen-sarn 27
- Llanelli 21
- Caerfyrddin 20
- Caerfyrddin 9
- Talyllychau 6
- Llwybr yr arfordir a lleoliadau traethau 5
- Rhydaman 4
- Trostre 4
- Cross Hands 4
- Llandeilo 3
- Canol Trefi 3
- Llyfrgell Llanelli 3
- Porth Tywyn 3
- Traeth Llanelli 2
- Rhodfa'r Santes Catrin 2
- Llandysul 2
- Talacharn 2
- Y Tymbl 2

- Maes Myrddin, Caerfyrddin 2
- Ffordd Cynwyl i Gaerfyrddin 1
- Llanybydder 1
- Caerfyrddin - Ardal Wledig 1
- Heol Awst, Caerfyrddin 1
- Sanclêr 1
- Pen-bre 1
- Pontyberem 1
- Cydweli 1
- Ffordd Caerfyrddin i Lanelli 1
- Carreg Cennen 1
- Pentwyn 1
- Llyfrgell Cross Hands 1
- Cenarth 1
- Drefach Felindre 1
- Llangadog 1
- Yr Hendy 1
- Abergwili
- Cynwyl Elfed
- Clunderwen
- Pemberton


**(3) Pa doileadau y byddwch/byddech yn eu defnyddio?**



**(4) A ydych yn gwybod am gyfleusterau Changing Places a'r hyn y mae'n ei gynnig i bobl sydd ag anabledd?**



**(4a) A ydych yn rhywun a fyddai'n defnyddio cyfleuster Changing Places, neu'n cynorthwyo rhywun arall i'w ddefnyddio?**




**(4b) A fydddech cystal â rhoi gwybod i ni a oes unrhyw leoliadau yn y Sir lle y credwch y dylid darparu cyfleuster newid?**

- Pob man (canol trefi/pentrefi ledled y sir) 13
- Canol Tref Llanelli 9
- Caerfyrddin 7
- Trostre 4
- Parc Gwledig Pen-bre 4
- Rhydaman 3
- Ysbytai 3
- Rhydaman 2
- Castellnewydd Emlyn 2
- Llandeilo 2
- Talacharn 1
- Rhodfa'r Santes Catrin 1
- Theatrau 1
- Canolfannau Hamdden 1
- Talylychau 1
- Parc y Scarlets 1
- Lle chwarae/Parciau 1
- Pen-sarn 1
- Llyn Llech Owain 1


**(4c) A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynghylch Lleoedd Newid?**

- Dylai fod o leiaf 1 teclyn codi ar gael ym mhob canol tref
- Mae angen gwely hefyd i newid plant hŷn/oedolion, ddim yn dderbyniol eu newid ar lawr brwnt
- Lle newid ar gyfer oedolion
- Mae angen y cyfleusterau hyn ym mhob pentref/tref
- 1 ym mhob tref
- 1 ym mhob safle hanesyddol, atyniad, traeth a pharc gwledig
- Yr uned gwaredu nodwyddau yn yr un lle â'r cyfleusterau newid cewynnau
- Dim digon
- Dim tâl
- Rhaid i'r cyfleusterau newid cewynnau fod ar gyfer unrhyw ryw ac ar gael i ddyn neu fenyw eu defnyddio i newid cewynnau gyda'u plentyn
- Rhaid ystyried y cyfleusterau hyn wrth gynllunio datblygiadau


**(5) Sut fydddech yn disgrifio safonau'r cyfleusterau yr ydych wedi'u defnyddio o ran y canlynol?  
(Diogelwch)**




**(5) Sut fydddech yn disgrifio safonau'r cyfleusterau yr ydych wedi'u defnyddio o ran y canlynol?  
(Glendid)**




**(5) Sut fydddech yn disgrifio safonau'r cyfleusterau yr ydych wedi'u defnyddio o ran y canlynol?  
(Lleoliad cyfleus)**




**(5) Sut fydddech yn disgrifio safonau'r cyfleusterau yr ydych wedi'u defnyddio o ran y canlynol?  
(Mynediad i bobl anabl)**



**(5) Sut fydddech yn disgrifio safonau'r cyfleusterau yr ydych wedi'u defnyddio o ran y canlynol? (Cyfleusterau newid cewynnau)**




**(6) Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi.**



1. Rwyf yn ceisio osgoi defnyddio toiledau cyhoeddus (gan gynnwys y rheiny mewn siopau neu fwytai) pan fyddaf yn mynd allan.
2. Rwyf ond yn defnyddio toiledau i gwsmeriaid mewn siopau a bwytai ac ati.
3. Byddwn yn hapus i dalu tâl bychan i ddefnyddio toiled
4. Rwyf ond yn defnyddio toiledau sydd am ddim

**(7) Os nad ydych yn defnyddio toiledau cyhoeddus, nodwch y rheswm am hynny.**





**(7) sylwadau:**

- Dim newid 4
- Cost 4
- Anaddas ar gyfer pobl ag AAA neu anabledau 4
- Rhy anniben/brwnt 4
- Dim byd o gwbl 3
- Defnyddio toiledau mewn siopau 1
- Diffyg papur, sebon a dŵr 1
- Gwrthod defnyddio'r cyfleusterau 1
- Ar gau 1

**(8) A ydych erioed wedi cael eich gwrthod rhag defnyddio toiled mewn busnes preifat yn Sir Gaerfyrddin? (e.e. siop)**



**(8) A ydych yn pryderu a fyddwch yn gallu cael mynediad i doiled pan fyddwch yn mynd allan?**



**(8a) Rhowch wybod i ni'r rhesymau dros hynny:**

- Bob amser
- Anodd dod o hyd i rywle addas a glân
- Anabl, dim lle i gadair olwyn
- Toiledau ar gyfer staff yn unig
- Dim byd ar gael
- Toiledau ar gyfer staff yn unig
- Beichiog - salwch, dim toiledau
- Mae ardal Matalan yn broblem

- Ddim yn gwsmer sy'n talu – methu defnyddio'r cyfleusterau
- Yfed llai fel hyfforddwr gyrru i osgoi stopio i fynd i'r toiled
- Ddim yn gwybod ble mae'r cyfleusterau, angen rhestr o doiledau anabl fel amserlen fysiau

**(9) A fydddech cystal â rhoi gwybod i ni a oes unrhyw leoliadau yn y Sir lle y credwch y dylid darparu cyfleusterau cyhoeddus ychwanegol.**

- Castellnewydd Emlyn 38
- Pob man 7
- Pen-sarn 7
- Pen-sarn 6
- Caerfyrddin 5
- Parc Arfordirol y Mileniwm 4
- Llyfrgell Cross Hands 3
- Ar agor trwy gydol y flwyddyn 3
- Canol Trefi 3
- Parc Gwledig Pen-bre 2
- Llanwrda 2
- Trostre 2
- Talylychau 2
- Maes Parcio Llanymddyfri 1
- Nantgaredig 1
- Llandeilo 1
- Gors-las 1
- Bryn Myrddin 1
- Llwybr yr Arfordir 1

**(10) A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynghylch cyfleusterau cyhoeddus?**

- Ar agor trwy gydol y flwyddyn
- Glendid
- Biniau gwaredu cynnyrch misglwyf
- Cau'n rhy gynnar
- Dylai'r cyfleusterau newid cewynnau fod ar gyfer unrhyw ryw
- Mae anabledau yn gyfyngedig ar hyn o bryd
- Ddim yn gyfleus
- Angen uwchraddio'r cyfleusterau
- Dim toiledau ar y llwybr bysiau
- Dibynnu gormod ar fusnesau i ddarparu toiledau
- Toiledau gorsaf fysiau Caerfyrddin yn cau'n rhy gynnar
- Dylai'r toiledau fod ar agor drwy gydol y flwyddyn, nid ar gyfer twristiaid yn unig
- Drud, codi pris rhy uchel
- Ffi safonol i bawb
- Mae cael gwared â thoiledau mewn trefi/pentrefi yn eu dinistrio

- Dylent fod am ddim
- Anghenraid sylfaenol
- Mae anghenion meddygol yn golygu bod yn rhaid cael mynediad i doiled/ystafell newid
- Angen rhestr o doiledau anabl
- Angen i doiledau anabl fod â lle i gadeiriau olwyn
- Mae'r rampiau mewn cyflwr gwael

## **Cymdeithas Toiledau Brydeinig (BTA) – Argymhellion Strategol**

Nododd y BTA y materion craidd canlynol y gellid eu hystyried:

- (a) Cyngorau Tref/Cymuned - archwilio cyfleoedd pellach i ddatganoli rheolaeth a chostau rhedeg.
- (b) Cynllun Toiledau Cymunedol - cynnwys a defnyddio toiledau mewn siopau lleol ac ati.
- (c) Darparu toiledau cludadwy - rheoli'r ddarpariaeth ar gyfer digwyddiadau a gwyliau.
- (d) Arwyddion - cyfathrebu a gwybodaeth effeithiol i adnabod/hyrwyddo cyfleusterau.
- (e) Mynediad 24-awr - Economi Liw Nos - ystyried mynediad 24 awr lle'n ymarferol.
- (f) Gwe ddylunio - mapio toiledau - defnydd cynyddol o gopiâu papur a chyfryngau electronaidd.
- (g) Iechyd a Diogelwch - rheoli, diogelwch, diogeledd, fandaliaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- (h) Lleoedd Newid - adnabod safleoedd posib o fewn datblygiadau arfaethedig.

Argymhellir ffurfio Grŵp Astudio Strategaeth Toiledau (TSSG) er mwyn arwain y gwaith o gasglu at ei gilydd yr holl wybodaeth berthnasol a dderbyniwyd ac sydd ar gael ar ddarpariaeth gyhoeddus ar draws y Cyngor. Yna gall y Grŵp osod nodau ac amserlenni i helpu swyddogion a phartneriaid i ddeall datblygiad y strategaeth ac i greu amgylchedd gwaith hwylus ar gyfer ei chyflawni.

Unwaith y cafodd y Grŵp Astudio ei drefnu, y cam nesaf fyddai cysylltu â chynrychiolwyr masnachol/busnes lleol a grwpiau cynrychioliadol eraill i holi eu barn am gyfleoedd i'r dyfodol.

## Amlinellau ac Ystyriaethau Strategol

Er nad oes unrhyw reidrwydd statudol ar unrhyw Gyngor i ddarparu toiledau cyhoeddus, derbynnir yn gyffredinol fod gan bob cyngor rôl yn darparu toiledau cyhoeddus i gefnogi cymunedau lleol, pobl hŷn, teuluoedd â phlant ac i annog pobl i chwarae rhan lawn mewn bywyd a mwynhau lleoedd cyhoeddus.

O'r herwydd, ceisiwn yn y rhan hon o'r strategaeth dynnu sylw at rai meysydd penodol y mae angen rhoi mwy o feddwl ac ystyriaeth iddynt. O'r herwydd, ymhlith y casgliad cyntaf o gamau a awgrymid fyddai ffurfio Grŵp Astudio Strategaeth Toiledau Sir Gaerfyrddin. Gwahoddir cynrychiolwyr o adrannau y mae ganddynt rôl yn darparu cyfleusterau toiledau'r Cyngor i gymryd rhan a helpu arwain y datblygiad hwn. Yn bennaf, er mwyn dadansoddi'r rhwydwaith cyffredinol o doiledau a dod i gytundeb neu gyflwyno awgrymiadau ymarferol ar ychwanegu at neu waredu o'r stoc bresennol o gyfleusterau cyhoeddus.

Cam pwysig arall fydd cysylltu â busnesau a grwpiau cynrychioliadol lleol i roi cyfle iddynt leisio barn a chyfrannu at sut mae'r polisiau'n cael eu gweithredu'n gyffredinol.

Mae darparu toiledau ar gyfer y cyhoedd yn bwysig i siopau a busnesau lleol hefyd. Mae busnesau yn bod i wneud elw, a llif cwsmeriaid yw anadl einioes y sectorau manwerthu a hamdden, ond y cam cyntaf yw gwneud i bobl deimlo atyniad at yr ardal. Er enghraifft, efallai y bydd gan fusnesau teuluol ac annibynnol gysylltiadau â'u hardal leol yn mynd yn ôl genedlaethau. Ar y llaw arall, mae gan gadwyni cenedlaethol ethos cryf o gynnig cefnogaeth gymdeithasol neu gymunedol fel rhan o'u polisi corfforaethol. Mae busnesau yn rhan o gymuned ac mae ganddynt gymaint o ddiddordeb mewn cefnogi amwynderau cymunedol lleol a hyrwyddo balchder dinesig ag awdurdodau lleol eu hunain.

Mae darparu toiledau cyhoeddus yn fater pwysig i ardaloedd sy'n dibynnu ar incwm twristiaeth neu sy'n ceisio datblygu eu proffil yn gyrchfan i ymwelwyr. Roedd economi ymwelwyr Cymru yn cyfrif am tua 10 miliwn o arosiadau dros nos oedd werth £1.9 biliwn yn y deuddeg mis diwethaf, a daeth tua 80 y cant ohono o dwristiaeth ddomestig. Mae Sir Gaerfyrddin yn gyrchfan ymwelwyr sy'n tyfu, a denodd tua 3 x miliwn o ymwelwyr yn 2016/17. Dangosodd arolwg yn 2005 gan Changing Lives N-Vision (Future Foundation) fod pobl dros 55 a theuluoedd â phlant yn fwy tebygol o gymryd gwyliau ac egwylion byr gartref. Ar yr un pryd, mae'r grwpiau hyn yn fwy tebygol o roi gwerth uwch ar allu dod o hyd i doiled.

Mae gallu dod o hyd i doiled yn angen sylfaenol i unrhyw ymwelydd. Mae ymwelwyr angen mwy o wybodaeth leol, mwy o arwyddion, arwyddbyst neu hysbysfyrddau lleol. Ni allant fynd adref, i'r gwaith, neu eu tafarn leol i ddefnyddio'r toiled. Mae ymwelwyr yn dewis eu gyrchfan yn ofalus, gan gofio eu hargraffiadau blaenorol, siarad â chyfeillion a theulu, chwilio am adborth ar y rhyngwyd. Felly, mae ymdeimlad o gyrchfan – i ba raddau y mae wedi bodloni anghenion ymwelydd a gwneud argraff gref a chadarnhaol – yn hollbwysig er mwyn annog pobl i ymweld eto ac mae'n chwarae rôl arwyddocaol ac yn ddangosydd o bwys o ran datblygiad economaidd cynaliadwy.

Mae angen i gwmnïau trafndiaeth - fel unrhyw fusnes masnachol - ymateb i adborth o arolygon o lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid. Ni fyddant ond yn gwneud y gorau o'u cyfleoedd masnachol os ydynt yn darparu'r cyfleusterau y mae eu teithwyr yn eu mynnu. Yn gyffredinol, gorsafoedd a chyfnwdfeydd yw'r pwynt cyswllt gwirioneddol cyntaf pan mae ymwelwyr yn cyrraedd. Yn aml iawn ar ddiwedd taith hir ac yn syth wedi cyrraedd, yr angen cyntaf yw mynd i'r toiled ac efallai cyfle hyd yn oed i ffreshau cyn mynd ar eu blaenau i'r dref.

Er bod y strategaeth hon yn canolbwyntio ar ddarparu toiledau cyhoeddus sy'n eiddo i'r Cyngor, mae'n amlwg fod y cyhoedd yn ystyried unrhyw doiledau sydd ar gael i'r cyhoedd yn doiledau cyhoeddus. Mae angen i doiledau a ddarperir gan siopau adrannol mewn canolfannau siopa, yn y bwytai bwyd cyflym mwyaf, mewn adeiladau cyhoeddus a chanolbwyntiau trafndiaeth gael eu hystyried yn rhan o'r ddarpariaeth gyffredinol o doiledau cyhoeddus. Mae'n rhaid i gaffis, bwytai, gwestai a thafarnau ddarparu toiledau ar gyfer eu defnyddwyr, fyddai hefyd yn gallu cael eu hystyried yn rhan o'r ddarpariaeth gyffredinol.

Yn naturiol, bydd y prif ffocws ar bentrefi, canol trefi, prif lwybrau teithio, safleoedd hanesyddol a'u meysydd parcio a'r ardaloedd sy'n union gyfagos iddynt. Yr ardaloedd yma sy'n denu'r nifer mwyaf o ymwelwyr, ac o'r herwydd dyma'r ardaloedd fydd dan y pwysau uniongyrchol mwyaf i fodloni anghenion ymwelwyr. Mae llawer o awdurdodau lleol yn troi at fusnesau lleol i gytuno partneriaethau i ddatblygu'r ymdeimlad yma o groeso, cynhwysiant cymdeithasol a chefnogaeth i'r economi leol. Yr enw ar y cytundeb partneriaeth unigryw hwn yw "Cynllun Toiledau Cymunedol" neu "Gynllun Toiledau Cysur" y byddwn yn manylu ymhellach arno yn y strategaeth hon. Yr ethos yn syml yw annog llawer o'r manwerthwyr a'r gymuned fusnes y mae ganddynt doiledau yn eu siop/gweithle i fod yn groesawgar i'r cyhoedd yn gyffredinol trwy roi gwahoddiad agored i bob ymwelydd a pherson lleol i ddefnyddio'r cyfleusterau hyn heb orfod prynu unrhyw beth.

## Iechyd a Llesiant

Mae i ba raddau y mae gan bobl fynediad at doiledau o ansawdd da yn effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant cyffredinol – yn ogystal ag iechyd a llesiant y gymuned gyfan. Trwy alluogi defnyddwyr a grwpiau defnyddwyr, a chanddynt ofynion penodol gwahanol iawn, i ddefnyddio toiledau cyhoeddus ar adegau gwahanol o'r dydd a'r nos gallem wneud argraff wirioneddol ar faterion fel iechyd y cyhoedd, cydraddoldeb, ymarfer, ymddygiad a llesiant. Am y rhesymau hynny, mae'r strategaeth hon yn bwysig ar draws nifer o feysydd polisi'r Cyngor.

**Cyfiawnder a Chynhwysiant Cymdeithasol:** mae diffyg toiledau glân, hygyrch a diogel yn effeithio ar rai unigolion yn fwy na'i gilydd. Efallai y bydd rhai pobl yn anabl neu'n amharod i adael eu cartrefi a mynd i ardaloedd lle y maen nhw'n ofni na fyddant yn gallu dod o hyd i doiled cyhoeddus. Mae gan bobl hŷn (carfan o'r boblogaeth sy'n tyfu wrth i gymdeithas heneiddio), mamau, tadau a gofalwyr a chanddynt blant ifanc, pobl anabl a phobl a chanddynt broblemau iechyd cronig - oll angen mynediad rhwydd at gyfleusterau toiledau cyhoeddus sy'n cynnwys cyfarpar addas.

Wrth ystyried ein "Cymunedau Iach", mae diffyg cyfleusterau toiledau ar yr adeg iawn yn y lle iawn yn cyfrannu at strydoedd brwnt sy'n anhylan, annymunol ac all ledu heintiau.



Gall grwpiau arbennig o ddefnyddwyr fel yr IBS Network, Disability Action, dioddefwyr clefyd Crohn neu anymataliad cronig, syndrom pledren swil (Paruresis) a llawer o bobl eraill fod ofn mentro allan am unrhyw gyfnod o amser os o gwbl os na allant ddod o hyd i neu leoli cyfleusterau cyhoeddus glân, hylan. Gall llawer o bobl hŷn leihau neu roi'r gorau i gymryd meddyginiaethau er mwyn gallu teithio mwy o bellteroedd wrth fynd i weld ffrindiau neu deulu. Mae diffyg y cyfleusterau hanfodol hyn hefyd yn effeithio ar famau a thadau cu yn gofalu am blant ifanc a theuluoedd yn cynnwys aelodau oedrannus. Mae ganddynt oll arian i'w wario ac fe gânt oll effaith ar yr economi yn y sir. Gall rhieni sengl a theuluoedd yn cynnwys plant ifanc fod mewn sefyllfa arbennig o fregus oherwydd diffyg cyfleusterau cyhoeddus hylan.

Mae darparu a gofalu am doiledau mewn lleoedd cyhoeddus yn fater i awdurdodau lleol, ac mae ganddynt rym, o dan adran 87 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936 ("PHA 1936"), i ddarparu toiledau cyhoeddus, ond heb unrhyw ddyletswydd i wneud hynny. Mater iddyn nhw yw dewis darparu'r cyfleusterau hyn ai peidio, a rhaid pwyso unrhyw wariant yn erbyn anghenion gwasanaethau lleol eraill. O dan adran 87(3)(c) PHA 1936, roedd gan awdurdodau lleol hawl i godi tâl am ddefnyddio pob toiled cyhoeddus. Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 newydd yn ceisio rhoi dyletswydd ar bob cyngor i ddatblygu strategaeth ar gyfer darparu toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd a thoiledau Lleoedd Newid er mwyn gwneud Cymru yn lle mwy deniadol i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef ac i gynyddu'r ymdeimlad o lesiant cyhoeddus i bawb.

Er y dellir yn iawn fod cynghorau ar draws Cymru yn wynebu anawsterau difrifol yn ystod y cyfnod economaidd anodd iawn hwn, cafodd cyllidebau eu torri'n sylweddol ac un o'r prif ddioddefwyr yw darparu toiledau cyhoeddus sydd wastad wedi bod yn wasanaeth disgrisiynol. Disgwylir i weithredu Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 fod yn gatalydd i gynghorau ledled Cymru chwilio am ac ymchwilio atebion newydd ar gyfer darparu toiledau.

## **Cynlluniau Toiledau Cymunedol neu Gysur (CTS)**

Trwy ymgynghori â'r BTA gwelsom ymdrechion pendant gan y cynghorau tref a dinas mwy i annog y siopau a pherchnogion busnesau mawr i ymuno â nifer o gynlluniau wedi'u rheoli, a elwir yn Gynlluniau Toiledau Cymunedol neu Gysur (CTS) lleol. Yr her yw manteisio ar y ddarpariaeth ychwanegol sydd eisoes ar gael mewn ffordd fwy ffurfiol. Yn amlwg, nid yw'r cynllun yn addas ymhobman ac nid yw'n gweithio cystal pan mae nifer fawr o ymwelwyr yn cyrraedd ar yr un pryd, ac mae gwasanaethu'r economi liw nos hefyd yn anodd, gan fod y rhan fwyaf o fusnesau ar gau. Fodd bynnag, pe bai'r math yma o gynllun yn cael ei ddatblygu yn ardal Sir Gaerfyrddin gallai'r dewis o doiledau sydd ar gael i'r cyhoedd gynyddu'n sylweddol ar draws y sir. Mae angen rhoi ystyriaeth hefyd i unrhyw gymorth ariannol ellid ei gynnig i fusnesau fyddai'n cymryd rhan. Mae'r cynlluniau cychwynol yn ceisio cefnogi'r aelodau trwy roi taliad i helpu talu am gost nwyddau traul a nwyddau glanhau ychwanegol. Roedd y taliad yma'n amrywio o gyngor i gyngor, ond roedd fel arfer yn amrywio o £300 - £1,000yf.

Bu Llywodraeth Cymru (LIC) yn cynnig Grant Cynllun Toiledau Cymunedol oedd yn cael ei weinyddu gan lywodraeth leol. Roedd busnesau yn cael cynnig taliad ad-dalu blynyddol o hyd at £500. Yn 2014/15 trosglwyddwyd yr arian hwn i Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru ac o'r herwydd rhoddodd y Cyngor y gorau i gefnogi Cynllun Toiledau Cymunedol.

Gellid rhoi ystyriaeth i ailddyrrannu'r arian a neilltuwyd yn y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer y Cynllun Toiledau Cymunedol. Ar yr amod fod yr arian hwn ar gael, byddwn yn mynd ati i gysylltu â chyfranogwyr CTS posib ac yn llunio rhestr o eiddo partneriaid posib ar draws y sir fydd yn cael ei chyflwyno i'r Grŵp Strategaeth i'w thrafod ac i gytuno'r camau nesaf.

Mae ymchwil ac arolygon rhyngwladol yn dangos yn gyson, er bod y mwyafrif mawr o bobl yn ystyried toiledau cyhoeddus yn hanfodol neu o leiaf yn bwysig iawn – fod defnyddio toiled cyhoeddus yn aml yn ddewis olaf, yn enwedig i fenywod. Mae llawer o ganfyddiadau negyddol yn dal i fod, bod toiledau cyhoeddus yn anhylan, ddim yn lân a'u bod yn gyson yn denu ymddygiad gwrth-gymdeithasol a fandaliaeth. Mae rhai o'r camganfyddiadau hyn yn deillio o gyfnod heb fod yn y gorffennol pell pan roedd toiledau'n cael eu lleoli'n fwriadol allan o olwg y cyhoedd, gan olygu nad oeddent yn cael eu gwasanaethu na'u staffio'n dda a'u bod yn denu mathau annymunol o ymddygiad. Erbyn hyn lleolir llawer o doiledau sydd ar gael i'r cyhoedd mewn mannau lle y gellir eu gweld a'u defnyddio'n rhwydd, sy'n golygu eu bod yn fwy diogel ac yn fwy tebygol o gynnig profiad croesawgar a chadarnhaol.

Mae trosglwyddo asedau i gynghorau tref a chymuned wedi cael effaith gadarnhaol o ran cadw rhai cyfleusterau a hyrwyddo rheolaeth leol. Mae hyn yn caniatáu i gynghorau redeg eu cyfleusterau eu hunain ac mae hefyd yn galluogi pobl leol i wneud penderfyniadau lleol ar amserau agor a hyblygrwydd yn y defnydd a wneir ohonynt.

## **Cynhwysiant a Hygyrchedd Cymdeithasol**

Mae diffyg toiledau cyhoeddus yn golygu fod rhai grwpiau'n teimlo'n ofidus am adael eu cartrefi. Mae gan Age Cymru ac AgeUK ganlyniadau ymchwil sy'n cyfeirio at yr effaith ar iechyd pobl hŷn - yn gorfforol, cymdeithasol a meddyliol - pan fyddan nhw'n methu gadael y tŷ oherwydd eu bod yn bryderus am beidio dod o hyd i doiled cyhoeddus. Nododd papur Help the Aged "Nowhere to Go: Public provision in the UK" (2007), yn seiliedig ar arolwg o 1,000 o bobl hŷn yn holi am eu teimladau am y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus, fod 12% o bobl hŷn (1.2m) yn teimlo'n gaeth i'w cartref eu hunain; nid yw 13% (1.26m) yn mynd allan fwy nac unwaith yr wythnos ac nid oedd 100,000 wedi bod allan o gwbl. Eu tystiolaeth yw bod diffyg toiledau cyhoeddus yn ffactor gyfrannol o bwys yn unigedd pobl hŷn. Wrth i bobl heneiddio, mae cyflyrau iechyd cronig yn datblygu sy'n aml yn arwain at amllder wrinol cynyddol. Dywed adroddiad drafft Age UK y bydd nifer y bobl dros 60 oed yn cynyddu'n arwyddocaol dros y 25 mlynedd nesaf.


Mae gan Sir Gaerfyrddin boblogaeth sy'n heneiddio, ac mae pobl dros 40 yn cyfrif am 56% o'r boblogaeth a phobl dros 65 yn cyfrif am 23%. Mae disgwyl i'r duedd hon barhau, ac mae'r rhagfynegiadau'n awgrymu y bydd y cynnydd cyffredinol ym mhoblogaeth Sir Gaerfyrddin hyd at 2021 yn digwydd yn bennaf yn y grŵp oed 65+.

Wrth i'r boblogaeth heneiddio, dylem roi ystyriaeth ofalus i'r niferoedd mawr o bobl hŷn sydd i bob pwrpas yn cael eu cloi allan o'n trefi oherwydd y prinder cyfleusterau cyhoeddus hwylus. Mae gan y grŵp cymdeithasol hwn gryn dipyn o arian i'w wario ac mae ganddynt yr amser i ddewis pa leoliad i ymweld ag ef. Os yw'r ddarpariaeth yn brin yn y sir, bydd yr unigolion hyn yn teithio i gyrchfannau eraill ac yn gwario eu harian yno. Mae'n rhaid cofio hefyd y bydd gan lawer o bobl gyflyrau meddygol allai gyfyngu eu symudiadau neu all greu gofid difrifol iddynt os na allant ddod o hyd i doiled addas o fewn cyfnod cyfyngedig o amser.

## Cyfleusterau Toiledau Cludadwy



Mae canllaw digwyddiadau diogel y Gweithgor Iechyd a Diogelwch (Y Canllaw Porffor) yn ganllaw i iechyd, diogelwch a llesiant yn y rhan fwyaf o ddigwyddiadau awyr agored. Bydd y canllaw hwn yn galluogi ein trefnwyr digwyddiadau i ddeall anghenion pobl eraill fydd yn gysylltiedig â'r digwyddiad. Rhaid i drefnwyr digwyddiadau ofalu y gwneir darpariaeth lanweithiol ddigonol ar gyfer y nifer o bobl a ddisgwylir yn y digwyddiad, ac y rhoddir ystyriaeth



i leoliad, mynediad, adeiladwaith, y math o gyfleusterau dros dro, goleuadau ac arwyddion. Dylai lloriau, rampiau a stepiau'r unedau fod yn sefydlog a dylai'r wyneb fod yn anllithrig. Dylai pibau cyswllt gael eu diogelu er mwyn osgoi peryglon baglu posib a difrod ffisegol. Dylai toiledau cludadwy fod yn amlwg, dylent gynnwys goleuo mewnol da a dylai fod arwyddion clir atynt o bob rhan o'r lleoliad. Dylai'r ardaloedd, a lle'n briodol, yr unedau unigol, gael eu goleuo'n ddigonol trwy gydol y dydd. Mae'r Sefydliad Gwasanaethau Adeiladu Siartredig yn argymhell lefel oleuo isafswm o 100 lux ar gyfer ardaloedd toiledau cyffredinol (200 lux ar gyfer toiledau yn hygyrch i gadeiriau olwyn). Mae cynnal a chadw rheolaidd a lleoliad priodol yn hollbwysig ar gyfer y mathau hyn o doiledau.

Mae gan Sir Gaerfyrddin galendr llawn o ddigwyddiadau a gweithgareddau bob blwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau y mae'n rhaid darparu ar eu cyfer yn cael eu llogi'n flynyddol ac yn aml yn cael eu cynnal bob blwyddyn. Mae'r mathau hyn o ddigwyddiadau yn denu llawer o ymwelwyr i'r ardal. Mae'r rhan fwyaf yn aros am sawl awr, sy'n golygu fod angen rhyw lefel o ddarpariaeth o doiledau ar eu cyfer. Trefnydd y digwyddiad sy'n gyfrifol am werthuso, archebu a gosod yr holl gyfleusterau toiledau cludadwy neu sefydlog ar y safle. Mae'n rhaid i hyn gynnwys hefyd unedau hygyrch ar gyfer unrhyw ymwelwyr anabl yn ogystal â chyfleusterau ychwanegol ar gyfer unrhyw berfformwyr, staff diogelwch ac atodol.

Mae'r tabl isod yn cynnig arweiniad ar ddarpariaeth lanweithiol mewn mathau gwahanol o ddigwyddiadau ac mae'n seiliedig ar brofiad ymarferol. Dylid ystyried hefyd yr angen i waredu elifant mewn ffordd gyfreithlon a diogel.

	Toiledau Menywod	Toiledau Dynion
Ar gyfer digwyddiadau a chanddynt amser gatiâu ar agor o lai na 6-awr ar agor	1 i bob 100	1 i bob 500, ac 1 wrinal i bob 150
Ar gyfer digwyddiadau a chanddynt amser gatiâu ar agor o 6 awr neu ragor, ond heb fawr ddim alcohol na bwyd yn cael ei weini os o gwbl	1 i bob 85	1 i bob 425, ac 1 wrinal i bob 125
Ar gyfer digwyddiadau a chanddynt amser gatiâu ar agor o 6 awr neu ragor, pan mae digonedd o alcohol a bwyd yn cael eu gweini	1 i bob 75	1 i bob 400, ac 1 wrinal i bob 100
Ar gyfer meysydd gweryslla mewn digwyddiadau mawr, symud y pwyslais o wrinal i doiledau ar gyfer dynion	1 i bob 75	1 i bob 150, ac 1 wrinal i bob 250

## Arwyddion, Gwybodaeth i Ymwelwyr a Chyfathrebu

Mae hyrwyddo mynediad y cyhoedd i doiledau yn golygu mwy na chynyddu'r ddarpariaeth; gallai hefyd olygu gwella arwyddion a gwybodaeth arall am beth sydd ar gael. Mae hyn yn bwysig i bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Mae nifer o fyrddau gwybodaeth i ymwelwyr yn cael eu darparu ar hyn o bryd gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn ychwanegol at gyfleusterau tebyg a ddarperir gan rai cynghorau tref a chymuned. Felly, gellid rhoi ystyriaeth i ail-edrych ar y byrddau gwybodaeth hyn gyda'r bwriad o gynnwys gwybodaeth fanylach ar leoliad toiledau.

Gallai arwyddion gynnwys gwybodaeth am gyfeiriad, pellter, cyfeiriad a'r math o gyfleusterau sydd ar gael ymhob lleoliad. Dylid defnyddio arwyddion hefyd i ddangos gwybodaeth hanfodol neu fannau eraill o ddiddordeb i ymwelwyr.

## MAP O GYMRU – GeoBorth LLE



Un o'r ymrwymiadau a wnaed yn ystod taith Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 trwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer strategaethau toiledau lleol oedd gweithio i gynhyrchu map toiledau cenedlaethol. Cynhyrchir y map hwn o fewn seilwaith mapio presennol Llywodraeth Cymru trwy wefan Lle. Mae hwn yn darparu geo-borth a ddatblygwyd mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae Lle yn

ganolbwynt ar gyfer data a gwybodaeth ar sbectrwm eang o feysydd, gan ganolbwyntio'n bennaf ar yr amgylchedd. Mae'r enghreifftiau o ddata a ddangosir ar y mapiau ar-lein yn cynnwys llwybrau dynodedig Teithio Llesol; ardaloedd rheoli ansawdd awyr; mapio sŵn amgylcheddol; ffiniau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau lleol; ardaloedd rhybudd llifogydd; data arolygon cynefinoedd a sawl math arall o wybodaeth amgylcheddol.

Bydd y wefan yn cynhyrchu mapiau Cymru gyfan yn seiliedig ar y setiau data a ddarperir gan awdurdodau lleol y gellir eu ffurfwedu i ganolbwyntio ar y darlun cenedlaethol neu ar ardaloedd mwy lleol. Bydd y data a gynhwysir ar fap Lle ar gael yn wasanaeth data agored fydd ar gael i bawb.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi datblygu ap, gan fod nifer o bobl yn methu defnyddio ffôn clyfar am nifer o resymau. Mae'n fwy priodol canolbwyntio ar sicrhau bod y wybodaeth ar gael ar-lein trwy wahanol wefannau a thrwy ddulliau oddi ar-lein traddodiadol. Credwn ei bod yn well i ddatblygwyr proffesiynol ddatblygu ap, gan y byddant yn gallu defnyddio'r data o wefan Lle.

Gofynion: Wedi i'r awdurdodau lleol nodi'r toiledau fydd yn cael eu cyhoeddi'n rhai fydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd, mae disgwyl i awdurdodau lleol baratoi set data yn ôl manyleb benodol a'i darparu ar ffurf data agored ar eu gwefan. Bydd y set data yn cynnwys lleoliad a nodweddion penodedig y toiledau dan sylw, a chaiff y data hwn ei gynnwys yn system Llywodraeth Cymru a'i uno â setiau data awdurdodau lleol eraill i gynhyrchu'r set data cenedlaethol ar gyfer map Lle.

Er mwyn i ddata gael ei ystyried yn ddata agored mae'n rhaid iddo gael ei ddarparu o dan drwydded agored. O fewn y Sector Cyhoeddus gellir gwneud hynny trwy gyhoeddi data o dan y Drwydded Llywodraeth Agored (OGL). Gan y caiff y data a ddarperir gan awdurdodau lleol ei ddarparu'n ddata agored, bydd ar gael i'w ail-ddefnyddio gan drydydd partion, naill ai'n uniongyrchol o wefan yr awdurdod lleol ei hun, neu drwy'r set data cyfunol y tu ôl i fap Lle. Gallai hyn gynnwys gwasanaethau map ar-lein eraill, datblygwyr apiau neu ddiddordebau masnachol, yn ogystal â bod ar gael i'w ail-ddefnyddio gan sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi darparu manylion llawn lleoliadau, manylion y cyfleusterau a chodau post ein toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd i Lywodraeth Cymru a chaiff y lleoliadau hyn eu llwytho a'u harddangos ar y GeoBorth. Dylai trigolion ac ymwelwyr â Chymru allu defnyddio'r feddalwedd fapio genedlaethol hon er mwyn dod o hyd i doiledau cyhoeddus ar draws Cymru.



Bydd y ddolen i'r wefan hon hefyd ar gael ar ein gwefan gorfforaethol ynghyd â map cyflawn o'n toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd <http://lle.gov.wales/home>.

**SYLWER:** Dylai holl berchnogion toiledau gael gwybod y caiff y data a gesglir o dan y strategaeth hon ei ddarparu'n agored. Mae hyn yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddata agored a amlinellir yng Nghynllun Data Agored Llywodraeth Cymru.

## Rheoli a Chloi Mynediad

Mae codi tâl am doiledau yn amlwg yn fater anodd y mae llawer o gynghorau yn ei wynebu ar hyn o bryd. Wrth i gyllidebau gael eu torri o flwyddyn i flwyddyn, daeth yn bwysicach fyth i ystyried codi refeniw o bob ffynhonnell bosib.

Bydd y rhan fwyaf o bobl a holir yn cadarnhau eu bod yn hapus i dalu am doiledau cyhoeddus glân a diogel, ac mae'r tâl a dderbynnir yn gyffredinol yn amrywio o 20-50c. Mae codi tâl mor gyffredin ar draws y DG erbyn hyn fel y bydd ymwelwyr â'r rhan fwyaf o drefi neu ddinasoedd yn fodlon talu yn gyffredinol ar yr amod fod y cyfleusterau yn lân a'u bod yn cael gofal da. Ar hyn o bryd mae gennym naw uned a reolir gan daliad o 20c i fynd i mewn i'r system ac mae'n bosib y gellid ymestyn hyn i rai unedau eraill yn y dyfodol. Mae'r rhain ar gael i'r sawl sydd angen defnyddio allwedd RADAR ac mae'r mynediad hwn yn RHAD AC AM DDIM.

**Talu digyffwrdd:** Rydym yn synhwyro cryn ddi-ddordeb a pharodrwydd sylweddol posib i ddefnyddio'r dechnoleg ddatblygol hon. Mae'n debyg y bydd gosod darllenwyr cardiau a'r systemau perthnasol yn ddatblygiad naturiol i doiledau cyhoeddus os codir tâl i'w defnyddio.

## Rheoli Mynediad

Mae trefn y cuddygl unigol yn y rhan fwyaf o'n toiledau yn golygu mai'r unig bwynt rheoli mynediad yw'r prif ddrws. Os yw ar agor – gall unrhyw un gerdded i mewn, ar gau – ac ni all neb ddod i mewn. Gan amlaf mae'n rhaid i aelod o'r staff fynd o gwmpas yn datgloi'r toiledau yn y bore a mynd yn ôl i'w hail-gloi gyda'r nos.

Mae nifer o broblemau yn gysylltiedig â hyn:

- Mae agor/cau toiledau yn dibynnu ar bresenoldeb staff ac mae salwch a gwyliau yn gallu creu problemau.
- Mae'n aml yn broses ddrud gan fod y drefn yn cymryd hyd at ddwy awr yn y bore/gyda'r nos.
- Mae'r teithio o un toiled i'r llall yn creu effaith amgylcheddol.

Gallai'r Grŵp Astudio geisio rhesymoli'r broses hon lle'n briodol fel ei bod, lle bynnag y bo modd, yn cael ei rheoli'n lleol neu trwy wneud y broses agor/cau yn un wedi'i hawtomeiddio.

## Cyfleuster Lleoedd Newid

Mae ymgyrch Lleoedd Newid yn ceisio cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer pobl a chanddynt anableddau unigol a/neu niferus ac sydd angen offer arbennig a chymorth gan ofalwyr. Hyrwyddir yr ymgyrch hon gan gonsortiw m o fudiadau sy'n gweithio i gefnogi hawliau pobl anabl. Mae miloedd o bobl a chanddynt anableddau dysgu difrifol a niferus yn methu defnyddio toiledau cyffredin. Maent angen cymorth gan un neu ddau ofalydd i ddefnyddio toiled. Nid yw toiledau cyffredin yn darparu meinciau newid neu declynnau codi. Mae'r rhan fwyaf yn rhy fach i gymryd mwy nac un person. Byddai darparu'r toiledau hyn mewn lleoedd cyhoeddus yn gwneud gwahaniaeth dramatig i fywydau llawer o bobl y mae ganddynt gymaint o angen defnyddio'r cyfleusterau hyn.



Mae pob toiled Lleoedd Newid yn darparu:

- mainc newid maint oedolion y gellir addasu ei uchder
- system teclyn codi tracio, neu declyn codi symudol os nad yw hynny'n bosib
- digon o le i gynnig hygyrchedd llawn
- digon o le i'r person anabl a hyd at ddau ofalydd
- toiled mewn lle canolog gydag ystafell ar y naill ochr i ofalwyr
- sgrîn/lle er mwyn rhoi preifatrwydd i'r person anabl a'r gofalydd
- amgylchedd diogel a glân
- rholyn papur llydan rhwygadwy i orchuddio'r fainc
- bin gwastraff mawr ar gyfer padiau gwardadwy
- llawr anllithrig



Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn ceisio sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i gynnwys cyfleusterau Lleoedd Newid mewn unrhyw ddatblygiadau priodol yn y dyfodol.

## Mapio ac uwchraddio'r wefan

Cymerwyd y map toiledau a welir isod yn syth o'n gwefan gorfforaethol ac mae'n cynnig amcan bras o leoliad toiledau cyhoeddus ar draws y sir. Fodd bynnag, nid yw'r mapio hwn ond yn dangos y safleoedd a hyrwyddir yn doiledau cyhoeddus ar hyn o bryd. Nid yw'r map yn manylu pa fath o doiled ydyw na'r cyfleusterau sydd ar gael. Byddai fersiwn wedi'i huwchraddio o'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol i drigolion ac ymwelwyr â'r sir.



Dylem ystyried hefyd ychwanegu pinnau newydd i ddangos lleoliadau'r holl aelodau sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Toiledau Cymunedol arfaethedig, unwaith y cawsant eu recriwtio, eu dilysu a'u cofnodi. Hefyd, bydd angen cyfeirio rhai rheolyddion wrth i ddatblygiadau newydd ac adeiladau cyfranogol ymddangos ar draws y sir.

## **Crynodeb o'r argymhellion a Chynllun Gweithredu**

Ceisiwn yma gyflwyno cyfres o gamau cychwynnol ac argymhellion ar gyfer gweithredu'r strategaeth hon a datblygu'r ddarpariaeth o doiledau yn Sir Gaerfyrddin i'r dyfodol.

### **(1) Adolygu'r holl gyfleusterau toiledau presennol – safle/mapio ac amserau agor**

Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi adnabod yr holl gyfleusterau yn eiddo i'r cyngor neu'n cael eu rheoli ganddo sydd ar gael ar hyn o bryd yn ychwanegol at rai cynghorau tref a chymuned a bydd yn cynnwys y safleoedd hyn yn yr holl waith mapio toiledau a chyhoedduswydd ar y wefan yn y dyfodol. Bydd swyddogion yn defnyddio system casglu data i gasglu ystod ehangach o wybodaeth ar yr unedau hyn. Bydd y wybodaeth hon yn bwydo i mewn i'r set data cenedlaethol ar gyfer system mapio Lle Llywodraeth Cymru. Bydd y cyhoedd yn gallu gweld a chwilio'r data wrth iddo ymddangos ar wefan Lle, er mwyn gweld Cymru gyfan neu i edrych ar ardaloedd penodol fel Sir Gaerfyrddin.



## **(2) Adnabod ac annog cyfleusterau eraill y Cyngor i fod ar gael yn fwy hwylus i'r cyhoedd**

Ymchwilio / adnabod a chysylltu â'r holl gyfleusterau mewnol er mwyn cynnwys safleoedd perthnasol a phriodol yn y gwaith mapio toiledau a chyhoeddusrwydd ar y wefan yn y dyfodol. Gallai'r safleoedd hyn gynnwys unrhyw adeilad sy'n hygyrch i'r cyhoedd lle y mae'r lleoliad, trefniadau mynediad ac amgylchiadau yn caniatáu, megis llyfrgelloedd, canolfannau gwybodaeth, canolfannau chwaraeon a hamdden a rhai o swyddfeydd y cyngor lle'n briodol. Byddai angen rhoi ystyriaeth ofalus i ganolfannau cymunedol ac adeiladau cymunedol eraill, a'u trin efallai yn astudiaeth achos arbennig. Defnyddir llawer ohonynt ar gyfer gweithgareddau plant, a byddai'n rhaid gosod gofynion preifatrwydd a diogelwch er mwyn diogelu'r sawl allai fod mewn perygl o wynebu ymyrraeth ddiodyn.

## **(3) Sefydlu cysylltiadau partneriaeth gyda chwmnïau a mudiadau cyhoeddus/preifat**

Mynd ati o ddirif i annog mudiadau arwyddocaol eraill sy'n draddodiadol yn awyddus i ddenu mwy o ymwelwyr. Gellid cynyddu nifer yr ymwelwyr pe bai'r adeiladau cyhoeddus hyn yn hyrwyddo eu cyfleusterau toiledau.

## **(4) Cynllun Toiledau Cymunedol/Cysur/Partneriaeth (CTS)**

Ymchwilio'r cyfle i ymgysylltu â pherchnogion siopau lleol a busnesau eraill yn masnachu ar draws y sir i ddatblygu seiliau ffurfiol ar gyfer cyflwyno Cynllun Toiledau Cymunedol. Mae'n ddiau y bydd y ddarpariaeth ychwanegol hon, wrth iddi dyfu, yn cael ei gweld yn gam pwysig ymlaen tuag at fynd ati i wneud darpariaeth ychwanegol. Bydd angen casglu mwy o wybodaeth er mwyn asesu pa mor ymarferol yw'r cam hwn, gan gynnwys neilltuo arian i weithredu cynllun o'r fath.

## **(5) Cyfleusterau toiledau cludadwy**

Pan nad yw trefnwyr digwyddiadau yn darparu digon o gyfleusterau toiled ar hyn o bryd dylid eu cynghori i wneud hynny yn unol â chanllawiau'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch. Ceir dolen i'r canllaw porffor sy'n cynnwys safonau awgrymedig yn:

<https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/trefnu-digwyddiadau/canllaw-i-drefnwyr-digwyddiadau/trwyddedu-ar-gyfer-digwyddiadau/#.XH-r2Ge7LIU>

Gall digonolrwydd y cyfleusterau glanweithiol a ddarperir mewn digwyddiadau gael ei adolygu gan Grŵp Ymgynghorol Sir Gaerfyrddin ar Ddiogelwch Digwyddiadau sy'n cynnwys aelodau'r gwasanaethau brys ynghyd ag adrannau allweddol y Cyngor.

## **(6) Toiledau Lleoedd Newid**

Ar hyn o bryd mae gan Sir Gaerfyrddin ddau doiled Lleoedd Newid, y ddau mewn dwylo preifat, i ymdopi ag unrhyw berson a chanddynt anabledd eithafol neu all fod angen nifer o ofalwyr. Gosodwyd dros 1250 o gyfleusterau Lleoedd Newid ar draws y DU ac Iwerddon a gosodwyd dros ddeugain o unedau yng Nghymru yn barod. Mae angen i Gymru gymdeithasol gynhwysol a chyfartal allu cynnig hygyrchedd i bob ymwelydd a pherson lleol. Bydd Cyngor Sir Gaerfyrddin yn ceisio sicrhau y rhoddir ystyriaeth i gynnwys cyfleusterau Lleoedd Newid mewn unrhyw ddatblygiadau priodol yn y dyfodol.

## **(7) Codi tâl – helpu cael gwared â chamdefnyddio cymdeithasol a fandaliaeth**

Mae gatiâu padl, gatiâu tro ac unedau un defnyddiwr yn cynnwys cloeon darn arian yn gyffredin mewn sawl ardal ar draws y DG. Mae'r gost mewn gwahanol gynghorau yn amrywio o 20c i 50c gan ddibynnu ar y lleoliad a faint o draffig sy'n defnyddio'r bloc toiledau. Mae'r rhan fwyaf o osodiadau sy'n defnyddio unrhyw un o'r dulliau codi tâl hyn wedi gweld gostyngiadau sylweddol yn nifer y bobl sy'n sefyllian, loetran a chamdefnyddio yn ardaloedd y toiledau hyn. Dywedir hefyd fod cryn dipyn yn llai o ymddygiad gwrthgymdeithasol a'i bod yn rhwyddach cadw'r toiledau yn lân ac mewn cyflwr y gellir gofalu amdanynt. Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn darparu naw cyfleuster sy'n codi tâl mynediad o 20c. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr i'n hymgyngoriad ar doiledau cyhoeddus y byddent yn hapus i dalu tâl bychan i allu defnyddio toiled cyhoeddus. Felly, gellid ystyried edrych ar ymarferoldeb cyflwyno taliadau mewn rhai cyfleusterau eraill lle'n briodol.

## **(8) Gwella'r cyfathrebu a'r wybodaeth sydd ar gael mewn cyfleusterau toiledau**

Mae'r adborth o'r ymgynghoriad ar doiledau cyhoeddus yn awgrymu y gellid gwella'r lefel bresennol o arwyddion. Gwelsom wrth ymchwilio fod rhai awdurdodau lleol, yn enwedig felly'r rhai a chanddynt gynllun partneriaeth toiledau iachus, wedi gosod byrddau stryd yn cynnwys mwy o wybodaeth ar leoliad safleoedd allweddol, cyfeiriadau ac yn fwy arwyddocaol godau post ar gyfer defnyddwyr ffonau symudol, SatNav neu gyfrifiaduron. Dylai gosod byrddau gwybodaeth amlddefnydd yn rhoi gwybodaeth am weithgareddau a digwyddiadau ynghyd â hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion godi ymwybyddiaeth ymwelwyr. Felly, gellid ystyried y posibilrwydd o ddatblygu a gosod byrddau stryd mewn lleoliadau priodol ar draws y sir.

## **(9) Cymhwysiad Mapio Llywodraeth Cymru (LLE)**

Bydd gwybodaeth wedi'i diweddarau yn cael ei chrynhai at ei gilydd a'i throsglwyddo i Lywodraeth Cymru – yn unol â'r drefn ar gyfer map Ymwelwyr â Chymru. Bydd angen gweithio'n ofalus iawn i sicrhau bod yr holl safleoedd sydd ar gael yn cael eu cofnodi at ddefnydd ymwelwyr ar beiriannau llaw electronaidd yn ogystal ag unedau SatNav er mwyn dod o hyd i doiledau ar draws y sir yn rhwydd. Wrth i'n Cynllun Toiledau Cymunedol arfaethedig a'n prosiectau partneriaethau busnes ehangu dylem ystyried y posibilrwydd o ehangu'r gwasanaeth mapio hwn i gynnwys y partneriaid ychwanegol hyn.

## **(10) Defnyddio Cynllunio**

Fel rhan o'r gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2018 -2033 byddwn yn ystyried y cyfleoedd i integreiddio gofynion canllawiau a pholisïau o ran darparu cyfleusterau cyhoeddus. Defnyddir cynnwys y canllawiau wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol a bydd deilliannau'r broses o'i baratoi yn cael eu hadlewyrchu mewn fersiynau o'r strategaeth i'r dyfodol. Lle'n briodol, bydd materion ynghylch ymgorffori a darparu toiledau o fewn datblygiadau yn cael eu hystyried yn unol â pholisi cynllunio a chanllawiau cynllunio

enedlaethol. Fe nodir fod disgwyl i'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig gael ei fabwysiadu ym misoedd Tachwedd/Rhagfyr 2021.

## **Atodir Atodiad (A) isod**

Mae'r dalenni hyn yn rhoi manylion llawn y ddarpariaeth bresennol fesul cyfleuster ar draws y sir. Maent yn rhoi canllawiau clir ar ddarpariaeth dynion, menywod a neillryw ynghyd â manylion am unedau hygyrch a chyfleusterau newid babanod.

Draft

**ATODIAD A**

**Cyfleusterau toiledau cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd**

		Cyfleusterau sydd ar gael														
Enw'r Lleoliad	Cod Post	Dynion yn unig	Menywod yn unig	Toiled neillryw	Newid babanod					Anabl					Lleoedd Newid (yn cynnwys cyfleusterau newid i oedolion, teclynnau codi ac ati ar gyfer pobl ag anableddau difrifol a'u gofawr)	
					toiledau dynion	toiledau menywod	toiled neillryw	Ar wahân i'r toiledau toiled anabl	Mynediad agored			Wedi'u (RADAR)		cloi		
									Dynion yn unig	Menywod yn unig	neillryw	Dynion yn unig	Menywod yn unig			neillryw
Rhydaman, Maes Parcio Carregaman	SA18 3EL	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na
Caerfyrddin, Maes Parcio Heol Ioan	SA31 1QT	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na
Caerfyrddin, Maes Parcio San Pedr	SA31 1LN	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na
Talacharn, ger y Castell	SA33 4SP	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na
Maes Parcio Llandeilo	SA19 6HL	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na



		Cyfleusterau sydd ar gael														
Enw'r Lleoliad	Cod Post	Dynion yn unig	Menywod yn unig	Toiled neillryw	Newid babanod					Anabl					Lleoedd Newid (yn cynnwys cyfleusterau newid i oedolion, teclynnau codi ac ati ar gyfer pobl ag anabledau difrifol a'u gofalwyr)	
					toiledau dynion	toiledau menywod	toiled neillryw	Ar wahân i'r toiledau	toiled anabl	Mynediad agored			Wedi'u (RADAR)			cloi
										Dynion yn unig	Menywod yn unig	neillryw	Dynion yn unig	Menywod yn unig		
Maes Parcio Llanymddyfri	SA20 0AB	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na
Llanelli ger Neuadd y Dref	SA15 3AH	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na
Llanelli Gorsaf Fysiau Porth y Dwyrain	SA15 1SG	Na	Na	le	le	Na	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na
Maes Parcio Sanclêr	SA33 4AG	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na
Canol Pentref Abergorlech	SA32 7SN	le	le	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na
Canol Pentref Alltwalis	SA32 7EB	le	le	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na

		Cyfleusterau sydd ar gael														Lleoedd Newid (yn cynnwys cyfleusterau newid i oedolion, teclynnau codi ac ati ar gyfer pobl ag anableddau difrifol a'u gofalwyr)	
Enw'r Lleoliad	Cod Post	Dynion yn unig	Menywod yn unig	Toiled neillryw	Newid babanod					Anabl					cloi		
					toiledau dynion	toiledau menywod	toiled neillryw	Ar wahân i'r toiledau	toiled anabl	Mynediad agored			Wedi'u (RADAR)				
										Dynion yn unig	Menywod yn unig	neillryw	Dynion yn unig	Menywod yn unig			neillryw
Parc Canolog Rhydaman	SA18 3BE	le	le	le	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na
Maes Parcio'r Co-op Rhydaman	SA18 1DL	le	le	le	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na
Canol Pentref Brechfa	SA32 7RA	le	le	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na
Gorsaf Reilffordd Porth Tywyn	SA16 0EP	le	le	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na
Cenarth	SA38 9JL	le	le	le	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na
Cynwyl Elfed	SA33 6TU	le	le	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na

		Cyfleusterau sydd ar gael														
Enw'r Lleoliad	Cod Post	Dynion yn unig	Menywod yn unig	Toiled neillryw	Newid babanod					Anabl						Lleoedd Newid (yn cynnwys cyfleusterau newid i oedolion, teclynnau codi ac ati ar gyfer pobl ag anableddau difrifol a'u gofalwyr)
					toiledau dynion	toiledau menywod	toiled neillryw	Ar wahân i'r toiledau	toiled anabl	Mynediad agored			Wedi'u cloi			
										Dynion yn unig	Menywod yn unig	neillryw	Dynion yn unig	Menywod yn unig	neillryw	
Mynedfa'r Traeth Glanyfferi	SA17 5TD	le	le	le	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na
Sgwâr Glanaman Cwmaman	SA18 1DZ	Na	Na	le	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na
Gors-las ger y Parc	SA14 7HP	le	le	le	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na
Canol Tref Cydweli	SA17 4UU	le	le	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na
Canol Pentref Llanboidy	SA34 0EL	le	le	Na	le	le	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na
Heol Dinbych-y-pysgod Llanddowror	SA33 4HJ	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na

		Cyfleusterau sydd ar gael															
Enw'r Lleoliad	Cod Post	Dynion yn unig	Menywod yn unig	Toiled neillryw	Newid babanod					Anabl						Lleoedd Newid (yn cynnwys cyfleusterau newid i oedolion, teclynnau codi ac ati ar gyfer pobl ag anabledau difrifol a'u gofalwyr)	
					toiledau dynion	toiledau menywod	toiled neillryw	Ar wahân i'r toiledau	toiled anabl	Mynediad agored			Wedi'u cloi				
										Dynion yn unig	Menywod yn unig	neillryw	Dynion yn unig	Menywod yn unig	neillryw		
Maes Parcio Traeth Llansteffan	SA33 5JX	le	le	le	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na
Sgwâr Llanybydder	SA40 9TX	le	le	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na
Meinciau ger y Neuadd Gymunedol	SA17 5LE	le	le	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na
Castellnewydd Emlyn ger y Mart	SA38 9AD	le	le	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na
Neuadd Farchnad Castellnewydd Emlyn	SA38 9AS	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na

		Cyfleusterau sydd ar gael															
Enw'r Lleoliad	Cod Post	Dynion yn unig	Menywod yn unig	Toiled neillryw	Newid babanod					Anabl						Lleoedd Newid (yn cynnwys cyfleusterau newid i oedolion, teclynnau codi ac ati ar gyfer pobl ag anableddau difrifol a'u gofalwyr)	
					toiledau dynion	toiledau menywod	toiled neillryw	Ar wahân i'r toiledau	toiled anabl	Mynediad agored			Wedi'u (RADAR)				cloi
										Dynion yn unig	Menywod yn unig	neillryw	Dynion yn unig	Menywod yn unig	neillryw		
Canolfan Parry Thomas Traeth Pentywyn	SA33 4NY	le	le	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na	
Hendy-gwyn ar Daf Heol y Gorllewin	SA34 0AB	le	le	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na	
Parc Howard Llanelli	SA15 3JQ	le	le	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na	
Marchnad Llanelli	SA15 1YH	le	le	Na	Na	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na	
Marchnad Caerfyrddin	SA31 1QY	le	le	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	
Bristol House A48	SA4 0FS	le	le	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na	

		Cyfleusterau sydd ar gael														
Enw'r Lleoliad	Cod Post	Dynion yn unig	Menywod yn unig	Toiled neillryw	Newid babanod					Anabl					Lleoedd Newid (yn cynnwys cyfleusterau newid i oedolion, teclynnau codi ac ati ar gyfer pobl ag anableddau difrifol a'u gofalwyr)	
					toiledau dynion	toiledau menywod	toiled neillryw	Ar wahân i'r toiledau	toiled anabl	Mynediad agored			Wedi'u (RADAR)			cloi
										Dynion yn unig	Menywod yn unig	neillryw	Dynion yn unig	Menywod yn unig		
Maes Parcio Meidrim	SA33 5QL	le	le	Na	le	le	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na
Llandybïe	SA18 3HY	le	le	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na
Pen-y-groes	SA14 7RP	le	le	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na
Ffarmers	SA19 8LQ	le	le	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na
Ffaldybrenin	SA19 8QR	le	le	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na
Llansawel	SA19 7JF	le	le	Na	Na	Na	Na	Na	le	Na	Na	le	Na	Na	Na	Na

# Toiledau cyhoeddus – y Safonau a’r Ddarpariaeth

Mae’r adran hon yn cynnig sylwebaeth ddethol ar y prif reoliadau a pholisïau sy’n ymwneud â darparu toiledau cyhoeddus a’r safonau perthnasol.

## Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936

Mae penderfynu darparu a chynnal toiledau mewn lleoedd cyhoeddus ai peidio yn fater i awdurdodau lleol, ac mae ganddynt rym, ond nid dyletswydd, o dan adran 87 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936 (“PHA 1936”), i ddarparu toiledau cyhoeddus. Mae felly’n fater i awdurdodau lleol benderfynu a ddylent ddarparu toiledau cyhoeddus ac, os felly, faint ohonynt. Wrth wneud hyn, rhaid i bob awdurdod lleol dafoli gofynion lleol croes am ystod eang o wasanaethau cyhoeddus yn erbyn yr angen i osgoi rhoi beichiau gormodol ar dalwyr treth lleol.

## BS 6465 - Rhannau 1-4: Gosodiadau Glanweithiol

### Cod ymarfer ar gyfer darparu toiledau cyhoeddus

Mae rheoliadau adeiladu yn gosod graddfeydd gorfodol ar gyfer darparu toiledau mewn aneddiadau yn unig; y Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gweithleoedd) sy’n berthnasol i weithleoedd. Mae’r Safon Prydeinig wedi’i uwchraddio yn God Ymarfer ar gyfer dylunio gosodiadau glanweithiol a graddfeydd darparu offer glanweithiol a chysylltiol. Mae’n cynnig argymhellion ar ddylunio cyfleusterau glanweithiol a’r raddfa ar gyfer darparu offer glanweithiol a chysylltiol a argymhellir mewn adeiladau newydd ac adeiladau sy’n cael gweddnewidiad sylweddol. Mae’r safon hwn yn berthnasol i aneddiadau preifat, cartrefi preswyl a nyrsio ar gyfer pobl hŷn, gweithleoedd, siopau a chanolfannau siopa, gorsafoedd petrol, ysgolion, theatrau, sinemâu, canolfannau arddangos, llyfrgelloedd, amgueddfeydd, gwestai, bwytai, tafarnau trwyddedig, clybiau nos, cyfleusterau chwaraeon, toiledau cyhoeddus a thoiledau dros dro.

## Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (DDA) 2005      Safon

### Prydeinig: BS8300

## Deddf Cydraddoldeb 2010

O 1 Hydref 2010, disodlodd y Ddeddf Gydraddoldeb y rhan fwyaf o’r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (DDA). Fodd bynnag, mae’r Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl yn y DDA yn parhau’n berthnasol. Mae Rhan 3 Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, wedi’i ddiwygio, yn cynnwys darpariaethau ar gyfer cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau. Mae’n mynnu fod darparwyr gwasanaethau (gan gynnwys awdurdodau cyhoeddus) yn gwneud addasiadau rhesymol er mwyn galluogi pobl anabl i ddefnyddio’r gwasanaethau hynny a fyddai fel arall yn amhosib neu’n afresymol o anodd iddynt eu defnyddio. Gallai hyn olygu, er enghraifft, newid polisi neu weithdrefn (megis newid polisi “dim anifeiliaid” i ganiatáu i gi cymorth fod gyda pherson anabl yn yr adeilad neu eiddo), darparu teclyn cynorthwyol (megis gwybodaeth am amserau agor neu brisiau mewn print bras neu Braille), neu wneud addasiadau i nodweddion ffisegol adeilad (megis er enghraifft trwy ddarparu ramp wrth fynedfa adeilad lle y ceir stepiau, drysau lletach a chuddyglau mwy er mwyn gallu cymryd defnyddwyr cadeiriau olwyn).



Fodd bynnag, nid yw'r DDA ond yn mynnu fod darparwyr gwasanaethau yn gwneud yr hyn sy'n "rhesymol" o dan yr amgylchiadau, gan gynnwys cost yr addasiad a pha mor ymarferol ydyw. Ni ddylai unrhyw wasanaeth cyhoeddus orfod cau oherwydd nad yw'n "rhesymol" gwneud addasiadau i'w wneud yn hygyrch i bobl anabl. Roedd ymestyn DDA 1995 trwy basio Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005 yn rhoi dyletswyddau i bob awdurdod cyhoeddus hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bobl anabl. Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl, a ddaeth ar waith ar 4 Rhagfyr 2006, yn mynnu fod awdurdodau cyhoeddus yn ystyried anghenion holl sectorau'r gymdeithas a wasanaethant, a sut maen nhw'n gofalu eu bod yn darparu gwasanaethau, a chyflawni swyddogaethau, mewn ffordd sy'n hyrwyddo mwy o gydraddoldeb i bobl anabl. Hefyd, mae paratoi Cynlluniau Cydraddoldeb i Bobl Anabl yn galluogi awdurdodau lleol i ystyried pa gamau y gallai fod rhaid iddynt eu cymryd i wella mynediad at gyfleusterau toiledau i bobl anabl.

### **Deddf Priffyrdd 1961**

Mae'n galluogi Awdurdodau Priffyrdd i gydsynio i osod toiledau cyhoeddus ar y briffordd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw reoliadau yn mynnu fod cwmnïau trenau, neu fathau eraill o drafnidiaeth, yn darparu toiledau ar gyfer eu teithwyr.

### **Deddf Toiledau Cyhoeddus (Gatiau Tro) 1963**

Mae'r Ddeddf hon yn gwahardd defnyddio gatiau tro mewn rhan o doiled cyhoeddus a reolir neu a weinyddir gan awdurdod lleol (nid yw hyn yn berthnasol i ddarparwyr eraill cyfleusterau toiledau). Ymatebodd y ddarpariaeth i bryder cyhoeddus am ddiogelwch gatiau tro a'r problemau mynediad maen nhw'n eu creu i bobl anabl, pobl a chanddynt gesys neu gadeiriau gwthio, menywod beichiog ac ati. Disodlwyd Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975 gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a thrwy hynny dirymodd Deddf (Gatiau Tro) 1963. Erbyn hyn caniateir i awdurdodau lleol osod gatiau padl neu gatiau tro ar eiddo'r cyngor.

### **Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003**

Mae'r grymoedd yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn caniatáu i'r Heddlu, Swyddogion Awdurdodau Lleol a Swyddogion Cymorth Cymunedol roi Hysbysiad Cosb Benodedig (FPN) i unrhyw un sy'n cael eu dal yn creu graffiti neu'n fandaleiddio eiddo megis toiledau cyhoeddus.

### **Canllaw Porffor y Gweithgor Iechyd a Diogelwch**

Mae'n cynnwys iechyd, diogelwch a lles mewn digwyddiadau cerddorol, gwyliau a digwyddiadau mawr tebyg. Mae'n cynnwys adran gyfan yn cynnig cyngor ar ddarparu cyfleusterau glanweithiol.

### **Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Rheilffordd 1998 (wedi'u diwygio)**

Mae'n gosod safonau mynediad isaf-derbyniol ar gyfer toiledau sy'n cael eu gosod ar drenau ac maen nhw'n mynnu, pan maen nhw'n cael eu gosod, fod y cuddyglau sydd agosaf at y gofod(au) cadeiriau olwyn yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. O'r ugain cynllun gwahanol i drenau a gyflwynwyd ers i'r rheoliadau ddod ar waith, roedd pob un ond un yn cynnwys toiledau ar y trenau.

## Diolchiadau

Mae'r canlynol yn ddetholiad o'r adnoddau a fu'n ddefnyddiol wrth lunio'r strategaeth hon. Mae dewis helaeth o ddeunyddiau ar gael trwy'r rhyngwyd, ac mae'r deunydd hwnnw'n ehangu'n gyson, yn enwedig felly wrth i awdurdodau lleol amlygu'r camau cadarnhaol maen nhw'n eu cymryd i wella mynediad cyhoeddus at doiledau.

## Deddfwriaeth, canllawiau cyffredinol a thechnegol ar doiledau cyhoeddus

Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936 [www.legislation.gov.uk](http://www.legislation.gov.uk)  
Safonau Prydeinig – Gosodiadau Glanweithiol (BS6465-Part 1-4)  
Public Conveniences: Policy, Planning, Provision, Ebrill 2001  
Inclusive Mobility – access to pedestrian and transport infrastructure Yr Adran Drafnidiaeth  
Knowledge Bank on Toilets ENCAMS

## Astudiaethau ac Adolygiadau Cyffredinol

An urgent need – London's public toilets - London Assembly Health & Public Services Committee.  
Who Put the P in Policy? design of the accessible toilet Bichard J, Hanson J a Greed C  
Taking stock: an overview of toilet provision and standards, 2005 Clara Greed  
Improving Public Access to Better Quality Toilets A Strategic Guide  
Yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol  
Inclusive Urban Design: Public Toilets, 2003 Dr Clara Greed  
The Accessible Toilet Resource, 2007 Hanson J, Bichard J a Greed C  
Independence & healthy living – the need for accessible loos Athro J Hanson LA Reports  
Draft Strategy for the provision of public conveniences in Cambridge  
Public Conveniences – Review of charging policy and modernisation of the facilities at Chesterton Road and Cherry Hinton Hall Cyngor Dinas Caergrawnt  
A Public Toilet Strategy for Doncaster, July 2003  
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Doncaster

## Adroddiadau ac Adolygiadau Eraill

Public Toilet Survey, Medi 2006 Bristol Women's Forum [www.bccforums.org.uk](http://www.bccforums.org.uk)  
Health impact assessment – Draft Older People's Strategy, Clara Fletcher Ebrill 2007  
Taking control of incontinence, 2007 Help the Aged  
Nowhere to go – public toilet provision in the UK, 2007 Help the Aged  
Improving Public Access to Better Quality Toilets Westminster

Council outlines improvement programme for public toilet facilities, Gorffennaf 2006  
New city centre facility officially opened, Mehefin 2008  
Cyngor Dinas Wolverhampton

## **Gwe Byrth Defnyddiol**

Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol:	<a href="http://www.ncc.org.uk">www.ncc.org.uk</a>
Cymdeithas Toiledau Prydain:	<a href="http://www.btaloos.co.uk">www.btaloos.co.uk</a>
Gwobrau Loo of the Year:	<a href="http://www.loo.co.uk">www.loo.co.uk</a>
Lleoedd Newid:	<a href="http://www.changing-places.org">www.changing-places.org</a>
ENCAMS:	<a href="http://www.encams.org">www.encams.org</a>
Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraffau:	<a href="http://www.ciwm.co.uk">www.ciwm.co.uk</a>
Age Cymru:	<a href="http://www.ageuk.org.uk/cymru">www.ageuk.org.uk/cymru</a>
Yr Adran Drafndiaeth:	<a href="http://www.dft.gov.uk/transportforyou/access">www.dft.gov.uk/transportforyou/access</a>
Mudiad Toiledau'r Byd:	<a href="http://www.worldtoilet.org">www.worldtoilet.org</a>

Rydym yn ddiolchgar hefyd i holl swyddogion a rheolwyr y Cyngor a sefydliadau preifat a helpodd gyda'r astudiaeth gymharol o gynghorau ac a roddodd eu hamser, eu gwybodaeth a'u harbenigedd yn barod er mwyn ei chwblhau. Diolchiadau arbennig hefyd i aelodau Cyngor Glanhau Prydain am eu cyfraniadau a'u trafod defnyddiol a helpodd lywio a chreu'r ddogfen hon.

Raymond Boyd Martin  
Rheolwr Gyfarwyddwr, Cymdeithas Toiledau Prydain  
Enterprise House, 2-4 Balloo Avenue, Bangor, Co.Down, Gogledd Iwerddon BT19 7QT  
Ffôn/Ffacs: 02891 477397 Rhif Symudol: 07739 950784  
E-Bost: [raymond@britloos.co.uk](mailto:raymond@britloos.co.uk)